

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 18 TACHWEDD 2021

TEITL: RHEOLAETH TRYSORLYS 2021-22
ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

PWRPAS: Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymhell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

ARGYMHELLIAD: DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH

AWDUR: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021, arhosodd gweithgarwch benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ymhellach, amcangyfrifir bydd gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn uwch na'r incwm disgwylidig yng nghyllideb 2021/22.

1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad yma yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

Mae Cod Darbodus 2017 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu Strategaeth Cyfalaf, sef dogfen grynodedd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn trafod gwariant ac arian cyfalaf, rheolaeth trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Cymeradwywyd Strategaeth Cyfalaf y Cyngor, sy'n cydymffurfio gyda gofynion CIPFA, gan y Cyngor llawn hefyd ar 4 Mawrth 2021.

2. CYD-DESTUN ALLANOL

Y cefndir economaidd: Prif nodwedd hanner cyntaf y flwyddyn ariannol oedd yr adferiad economaidd yn dilyn y pandemig Coronafirws. Erbyn diwedd y cyfnod yr oedd dros 48 miliwn o bobl yn y DU wedi derbyn eu dos cyntaf o frechlyn COVID-19 a bron 45 miliwn wedi derbyn ail ddos.

Drwy'r cyfnod, cadwodd Fanc Lloegr y Gyfradd Banc ar 0.1%, a chynnal ei raglen Esmwytho Meintiol (QE) ar £895 biliwn, heb unrhyw newid ers y cyfarfod ym mis Tachwedd 2020. Yn ei gyhoeddiad polisi ym mis Medi 2021, nododd Fanc Lloegr bod disgwyl i economi'r DU dyfu'n arafach na'r hyn a ragwelwyd ym mis Awst, gan fod arwyddion o arafu yn yr adferiad bydeang, a bod pryder y byddai pwysau chwyddiant yn fwy cyson. Yn y cyhoeddiad, adolygwyd disgwyliadau'r Banc ar gyfer twf GDP ar gyfer y trydydd chwarter (calendr) gan ostwng i 2.1% (o 2.9%), yn adlewyrchu'n rhannol yr amodau cyflenwi tynnach. Bellach, disgwylir i lwybr chwyddiant CPI godi rhywfaint uwchben 4% yn nhri mis olaf 2021, o ganlyniad i brisiau ynni uwch a chwyddiant nwyddau craidd. Er na newidiwyd y cyfraddau polisi yn nghyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol, roedd y naws yn fwy rhagweithiol.

Cefnogwyd yr economi dros y chwarter gan fentrau'r Llywodraeth, ond daethant i ben ar 30 Medi 2021, gyda busnesau naill ai'n gorfod derbyn 1.6 miliwn o weithwyr yn ôl o'r cynllun ffyrlo, neu eu diswyddo.

Dangosodd data diweddaraf y farchnad lafur fod y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng i 4.6% yn ystod y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2021. Cynyddodd y gyfradd gyflogaeth, a gostyngodd y cyfraddau gweithgarwch economaidd, gan awgrymu bod sefyllfa'r farchnad lafur yn gwella. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod twf yng nghyfanswm y tâl cyfartalog (yn cynnwys taliadau bonws) ymysg gweithwyr yn 8.3% a thâl rheolaidd (ac eithrio taliadau bonws) yn 6.3% dros y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r ffigurau twf cadarn yn rhannol o ganlyniad i effaith sail yn deillio o ostyngiad mewn cyflogau cyfartalog yng ngwanwyn y llynedd yn gysylltiedig â'r cynllun ffyrlo.

Cynyddodd chwyddiant CPI i 3.2% ym mis Awst, gan ragori ar y disgwyliadau am 2.9%, gyda'r cyfraniad mwyaf tuag at y cynnydd yn dod gan fwytai a gwestai. Mae Banc Lloegr bellach yn disgwyl i chwyddiant gyrraedd dros 4% erbyn diwedd y flwyddyn galendr, yn bennaf o ganlyniad i brisiau ynni a nwyddau. Roedd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI), y mesurydd a ffafrir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 3.0% y flwyddyn/blwyddyn sy'n cynnwys tai perchen-breswylwyr, sef lefel ychydig yn uwch na'r disgwyliad o 2.7%.

O ganlyniad i lacio'r cyfyngiadau, cafwyd mwy o weithgaredd yn ail chwarter y flwyddyn galendr, gan gyfrannu at y cynnydd o 5.5% yn y GDP ch/ch (amcangyfrif terfynol yn erbyn amcangyfrif cychwynol 4.8% ch/ch). Defnydd gan aelwydydd oedd y cyfrannwr mwyaf. Fesul sector, cyfrannodd cynhyrchu 1.0% ch/ch, adeiladu 3.8% ch/ch a gwasanaethau 6.5% ch/ch, a phob un yn agos at ddychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig.

Tyfodd economi UDA 6.3% yn Ch1 2021 (Ionawr-Mawrth), gyda thwf cryfach o 6.6% yn Ch2 wrth i'r adferiad barhau. Cynhaliodd y Federal Reserve ei brif gyfradd llog rhwng 0% a 0.25% dros y cyfnod, ond yn ei gyfarfod diweddaraf, gwnaed awgrym y byddai camau buan i dynhau'r polisi ariannol.

Cadwodd Banc Canolog Ewrop ei gyfradd sail yn 0%, y gyfradd adneuo yn -0.5%, a'r cynllun prynu asedau ar €1.85 triliwn.

Marchnadoedd ariannol: Cefnogwyd marchnadoedd ecwiti yn ystod y cyfnod gan ysgogiad ariannol a chyllidol, ynghyd â thwf economaidd a'r rhaglenni parhaus i ddarparu brechiadau, er bod y sefyllfa'n fwy ansefydlog erbyn diwedd y cyfnod. Cyrhaeddodd Dow Jones ei lefel

uchaf unwaith eto, a pharhaodd fynegai FTSE 250, sy'n canolbwyntio ar y DU, i wneud cynnydd uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Gwnaeth y FTSE 100, sydd â ffocws fwy rhyngwladol, gynnydd llai dros y cyfnod, ac mae'n parhau i fod yn is na'i lefel uchaf cyn yr argyfwng.

Parhaodd y pryderon chwyddiant yn ystod y cyfnod. Yr oedd y gostyngiadau yn enillion bondiau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol yn awgrymu bod marchnadoedd bondiau yn disgwyl i unrhyw gynnydd cyffredinol mewn prisiau fod yn llai difrifol, neu'n fwy byrhoedlog na'r amcan blaenorol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn prisiau nwy yn y DU a'r UE, prinder cyflenwadau a phrinder gyrwyr HGV a loriau gyda chwmnïau'n fodlon talu mwy iddynt am eu gwasanaeth, wedi achosi problemau i nifer o ddiwydiannau, gan arwain at brisiau uwch mewn rhai achosion.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 0.36% oedd lefel yr enillion ar giltiau 5-mlynedd, cyn gostwng i 0.33% erbyn diwedd mis Mehefin 2021, a dringo i 0.64% ar 30 Medi. Dros yr un cyfnod, gostyngodd yr enillion gilt o 0.80% i 0.71% cyn codi i 1.03%. Gostyngodd yr enillion 20-mlynedd o 1.31% i 1.21% a chynyddu wedyn i 1.37%.

0.05% oedd cyfartaledd Cyfradd Dros Nos Sterling (SONIA) dros y chwarter.

Adolygiad credyd: Roedd lefelau amrediad cyfnewid diffyg dalu credyd yn sefydlog dros y cyfnod ac maent yn cyfateb yn fras i'w lefelau cyn y pandemig. Ar ddiwedd mis Medi gwelwyd cynnydd yn yr amrediad o ychydig bwyntiau sail o ganlyniad i ddiffyg gan Evergrande, datblygwr eiddo o China, ond maent bellach yn gostwng eto. Yr oedd y bwloch yn yr amrediad rhwng endidau y DU wedi'u clustnodi a heb eu clustnodi yn parhau'n gul, ond yr oedd Santander UK yn parhau yn eithriad i'r banciau eraill wedi'u clustnodi/manwerthu. Ar ddiwedd y cyfnod yr oedd Santander UK yn masnachu ar y lefel uchaf o 53bps a Lloyds Banks plc oedd yr isaf ar 32bps. Yr oedd y banciau eraill wedi'u clustnodi yn masnachu rhwng 37-39bps a Nationwide Building Society yn 39bps.

Dros y cyfnod, bu cynnydd yn adolygiad Fitch a Moody's i sefydlogi'r rhagolygon ar gyfer nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu'r DU ar ein rhestr o wrthbartïon, gan gydnabod y gwelliant yn eu sefyllfaoedd cyfalaf o gymharu â llynedd, a gwell rhagolygon twf yn y DU.

Yn ogystal, adolygodd Fitch ei ragolygon ar gyfer Nordea, Svenska Handelsbanken a Handelsbanken plc i sefydlog o negyddol. Ystyriodd yr asiantaeth raddio bod y gwelliant yn rhagolygon economaidd yr ardal Nordig wedi gostwng gwaelodlin y risgiau negyddol a oedd wedi'u hadnabod mewn perthynas â'r benthycwyr.

Mae'r rhaglen lwyddiannus i gyflwyno brechiadau yn bositif o ran credyd yn gyffredinol i'r sector gwasanaethau ariannol, ac o ganlyniad i'r rhagolygon economaidd gwell mae rhai sefydliadau wedi gallu lleihau'r darpariaethau ar gyfer benthyciadau gwael. Er bod ansicrwydd yn parhau ynghylch lefel y colledion i fanciau a chymdeithasau adeiladu o ganlyniad i arafwch yr economi yn sgil y pandemig, yn gyffredinol mae'r sector bellach mewn sefyllfa gryfach nag yr oedd yn gynharach eleni ac yn 2020.

Ar ddiwedd y cyfnod, yr oedd Arlingclose wedi cwblhau ei adolygiad llawn o'i gyngor credyd ar adneuon heb eu diogelu. O ganlyniad i'r adolygiad, cafodd NatWest Markets plc ei ychwanegu at y rhestr wrthbartïon, a chafodd gwaharddiad Handelsbanken plc ei ddileu. Yn ogystal, estynnwyd uchafswm cyfnod yr holl wrthbartïon a argymhellwyd i 100 niwrnod.

Fel yn arferol, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar rhestr wrthbartïon yr Awdurdod a argymhellir gan yr ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys yn cael eu hadolygu yn barhaus.

3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 31 Mawrth 2021 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £27.4m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthycu Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi.

Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

Crynodeb o'r Fantolen –

	31.3.21 Gwir £m
CFR	174
Llai : *Ymrwymadau dyled eraill	(2)
CFR Benthyciadau	172
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy	(108)
Llai: Cyfalaf Gweithredol	(16)
Benthyciadau net	48

*Iesau cyllido, ymrwymadau PFI

Mae cyfraddau llog swyddogol is wedi gostwng cost benthyciadau tymor byr, dros do ac enillion buddsoddi o asedau arian parod y gellir eu defnyddio yn lle benthycu. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthycu mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Dangosir sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi 2021 a'r newid yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

	31.3.21 Balans £m	Symudiad 6 mis £m	31.9.21 Balans £m	31.9.21 Cyfradd %
Benthyciadau tymor hir	(104.7)	0.1	(104.6)	5.5
Benthyciadau tymor byr	(5.0)	5.0	0.0	n/a
PFI	(1.5)	0.0	(1.5)	n/a
Cyfanswm Benthyciadau	(111.2)	5.1	(106.1)	
Buddsoddiadau tymor byr	34.9	43.3	78.2	0.6
Arian a Chywerthydd arian	28.6	(5.7)	22.9	0.0
Cyfanswm buddsoddiadau	63.5	37.6	101.1	
Benthyciadau net	(47.7)	42.7	(5.0)	

4. DIWEDDARIAD BENTHYCA

Gall awdurdodau lleol fenthycu gan y PWLB ar yr amod eu bod yn gallu cadarnhau nad ydyn nhw'n bwriadu prynu 'asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch' yn y ddwy flynedd ariannol gyfredol neu nesaf, gyda chadarnhad o bwrpas gwariant cyfalaf gan y Swyddog Adran 151. Ni fydd awdurdodau sy'n prynu neu'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch yn gallu cyrchu'r PWLB ac eithrio ail gyllido benthyciadau presennol neu

allanoli benthycia mewnol.

Mae defnydd derbyniol o fenthycia PWLB yn cynnwys darparu gwasanaethau, tai, adfywio, gweithredu ataliol, ail gyllido a rheoli trysorlys.

Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu prynu unrhyw asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch o fewn y tair blynedd nesaf ac felly mae'n gallu cyrchu'r PWLB yn llawn.

Canllawiau PWLB Diwygiedig

Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau pellach ar fenthycia PWLB ym mis Awst 2021 gan ddarparu manylion ac eglurhad ychwanegol yn bennaf ynghylch y diffiniad o 'ased buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch'. Y brif agweddau'r canllawiau newydd yw:

- Mae gwariant cyfalaf neu ymrwymadau cyn 26 Tachwedd 2020 yn ganiatol hyd yn oed ar gyfer 'ased buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch'.
- Dylai awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau cyfalaf trwy ffurflen DELTA. Mae'r rhain yn agor ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ar 1 Mawrth ac yn parhau ar agor trwy'r flwyddyn. Rhaid diweddarau'r ffurflenni os bydd newid o fwy na 10%.
- Ni ddylid categoreiddio ased a ddelir yn bennaf i gynhyrchu cynnyrch nad yw'n ateb unrhyw bwrpas polisi uniongyrchol fel darparu gwasanaethau.
- Manylion pellach ar sut y gall awdurdodau lleol sy'n prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch gael mynediad i'r PWLB at ddibenion ail gyllido benthyciadau presennol neu allanoli benthycia mewnol.
- Manylion ychwanegol am y sancsiynau y gellir eu gosod am ddefnydd amhriodol o'r benthyciad PWLB. Gall y rhain gynnwys cais i ganslo prosiectau, cyfyngiadau ar gyrchu'r PWLB a cheisiadau am wybodaeth am gynlluniau pellach.

Newidiadau i Delerau ac Amodau PWLB o 8 Medi 2021

Mae'r amser setliad ar gyfer benthyciad PWLB wedi'i ymestyn o ddau ddiwrnod gwaith (T + 2) i bum diwrnod gwaith (T + 5). Mewn ymdrech i amddiffyn y PWLB yn erbyn cyfraddau llog negyddol, mae'r isafswm cyfradd llog ar gyfer benthyciadau PWLB hefyd wedi'i bennu ar 0.01% a'r llog a godir ar ad-daliadau hwyr fydd yr uchaf o Gyfradd Sylfaen Banc Lloegr neu 0.1%.

Asiantaeth Bondiau Trefol (MBA): Mae'r MBA yn gweithio i ddarparu datrysiad benthyciad tymor byr newydd, sydd ar gael yn y lle cyntaf i brif awdurdodau lleol yn Lloegr, gan ganiatáu iddynt gael mynediad at ddyled hyblyg, tymor byr gyda chyfradd isel. Disgwylir i isafswm maint y benthyciad fod yn £25 miliwn. Yn bwysig, bydd awdurdodau lleol yn benthycia yn eu henwau eu hunain ac ni fyddant yn croes-warantu unrhyw awdurdodau eraill.

Os yw'r Awdurdod yn bwriadu benthycia trwy'r MBA yn y dyfodol, bydd yn gyntaf yn sicrhau ei fod wedi archwilio'n drylwyr ar delerau ac amodau cyfreithiol y trefniant ac yn fodlon â nhw.

Banc Is-adeiledd y DU: Mae £4bn wedi'i glustnodi ar gyfer benthycia i awdurdodau lleol gan Fanc Is-adeiledd y DU sydd ym mherchnogaeth lwyr ac yn cael ei gefnogi gan Drysorlys EM. Nid yw argaeledd y benthyciad hwn i awdurdodau lleol, y bydd proses gynnig ar ei gyfer, wedi cychwyn eto. Bydd benthyciadau ar gael ar gyfer prosiectau cymwys ar gynnnyrch gilt ynghyd â 0.6%, sydd 0.2% yn is na chyfradd sicrwydd PWLB.

5. STRATEGAETH BENTHYCA

Ar 30 Medi 2021, roedd gan y Cyngor £103.1m o fenthyciadau fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol, a £1.5m ar gyfer prosiectau penodol. Crynhoi'r benthyciadau sy'n ddyledus ar 30 Medi yn tabl isod.

Sefyllfa Benthycia

	31.3.21	6 month	30.9.21	30.9.21
	Balance	Movement	Balance	Rate
	£m	£m	£m	%
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)	86.9	0.0	86.9	5.75
Banc (tymor hir)	16.2	0.0	16.2	4.22
Awdurdodau Lleol	5.0	(5.0)	0.0	n/a
Prosiectau Penodol	1.6	(0.1)	1.5	n/a
Cyfanswm Benthyciadau	109.7	(5.1)	104.6	

Prif amcan y Cyngor wrth fenthycia arian yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda'r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid.

Gyda chyfraddau llog tymor byr yn parhau i fod yn llawer is na chyfraddau tymor hir, roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn fwy cost effeithiol yn y tymor agos i ddefnyddio adnoddau mewnol a benthycia benthyciadau tymor byr yn lle. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthycia net (er gwaethaf incwm buddsoddi a ildiwyd) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys.

6. GWEITHGAREDD BUDDSODDI

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau y Cyngor yn amrywio rhwng £62.9 a £147.9 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	31.3.21	Symudiad	30.9.21	30.9.21
	Balans	6 mis	Balans	Incwm
	£m	£m	£m	%
Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	8.6	15.8	24.4	0.10
Awdurdodau Lleol	20.0	5.0	25.0	0.07
Swyddfa Rheoli Dyledion	0.0	24.0	24.0	0.01
Cronfeydd Marchnad Arian	26.0	(7.5)	18.5	0.01
Cronfeydd Cyfun	8.9	0.3	9.2	4.10
Cyfanswm Buddsoddiadau	63.5	37.6	101.1	

Mae Cod CIPFA a chanllaw y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y cyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffyg dalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Mae cyfraddau isel iawn arian parod tymor byr wedi bod yn nodwedd ers mis Mawrth 2020 pan dorrwyd Cyfradd Banc i 0.1% wedi arwain at yr enillion ar gronfeydd marchnad arian gwerth ased net anweddolrwydd isel (LVNAV MMFs) yn agos at sero hyd yn oed ar ôl i rai rheolwyr hepgor neu ostwng eu ffioedd dros dro. Ar hyn o bryd nid yw'r enillion negyddol net yn achos canolog y mwyafrif o reolwyr gronfeydd marchnad arian dros y tymor byr, a dylai toriadau neu hepgoriadau ffioedd arwain at lawr o sero i gynnyrch net cronfeydd marchnad arian, ond ni ellir diystyru'r posibilrwydd.

Mae cyfraddau adneuo gyda'r Cyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyled (DMADF) hefyd oddeutu sero i raddau helaeth.

Dalier £10m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan yr arian hwn, ond maent ar gael i dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2021 isod:

STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO			GWYNEDD				From:	22/02/2019		To:	30/09/2021
FUND NAME	ASSET CLASS	No of Units Held In Period	Current Value £	Capital Growth £	Dividends Earned £	Holding Period (yrs)	Capital Return	Income Return	Total Return	Volatility	
AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND	MULTI ASSET	1,158,480	1,254,947	-4,947	157,264	2.6	0.40%	12.58%	12.98%	15.6%	
CCLA - LAMIT PROPERTY FUND	PROPERTY	1,524,344	4,713,881	-286,119	493,097	2.6	-5.72%	9.86%	4.14%	5.7%	
NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND	MULTI ASSET	1,209,599	1,207,116	-42,884	136,604	2.6	-3.43%	10.93%	7.50%	7.8%	
SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND	EQUITY - UK	5,173,994	2,067,528	-447,780	428,897	2.5	-17.80%	17.05%	-0.75%	17.7%	
GRAND TOTAL			9,243,472	-771,837	1,215,861	2.6	-7.71%	12.14%	-4.43%	8.0%	
			Unrealised capital loss since purchase:		-756,529	Annualised income return:		4.33%			

Mae'n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £9.243m yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £10m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynnyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolog.

Meincnodi Buddsoddi

Mae'r dilyniant o'r metrigau risg ac adenillion fel y dangosir yn y detholiadau o feincnodau buddsoddi chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

	Sgôr Risg	Statws Credyd	Datguddiad 'Bail-in'	Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau)	Cyfradd Adennill %
30.06.2021	4.66	A+	51%	35	1.43
30.09.2021	4.52	A+	41%	34	1.74
AL tebyg	4.73	A+	58%	48	0.48
Bob AL	4.69	A+	69%	10	2.35

Perfformiad Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £0.4m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwylidig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ychydig yn uwch yn £0.44m.

7. CYDYMFFURFIO

Gallaf gadarnhau bod gweithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio'n llawn gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy'r Cyngor.

Arhosodd gweithgaredd benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd.

Ffin Dyled

	Uchafswm yn y cyfnod	30.9.21 Gwir	2021/22 Ffin Gweithredol	2021/22 Ffin Awdurdodedig	Cydymffurfio
Benthyciadau	£109.7m	£104.6m	£184m	£194m	✓
PFI a Prydlesau Cyllid	£1.5m	£1.5m	£6m	£6m	✓
Cyfanswm Dyled	£111.2m	£106.1m	£190m	£200m	✓

Cyfyngiadau Buddsoddi

	Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod	30.9.21 Gwir	2021/22 Terfyn Gwrthbarti	Cydym- ffurfio
Llywodraeth y DU	£50m	£24m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£5m	£10m	✓
Buddsoddiadau â sicrwydd	£0	£0m	£10m	✓
Banciau (ansicredig)	£5m	£5m	£5m	✓
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig)	£0	£0	£5m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£7m	£7m	£10m	✓
Cronfeydd cyfun strategol	£5m	£5m	£10m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£0	£0	£10m	✓
Buddsoddiadau eraill	£0m	£0m	£5m	✓

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad at risgiau rheolaeth trysorlys wrth ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwysu'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

	Targed	Gwir	Cydymffurfio
Sgôr credyd cyfartal y portffolio	6.0	4.52	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd a thaliadau annisgwyl.

	30.9.21 Gwir	2021/22 Targed	Cydymffurfio
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£76.9m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar effeithiau referniw o gynnydd a cwmp o 1% mewn cyfraddau llog, fel a ganlyn:

Dangosydd risg cyfradd llog	30.9.21 Gwir	Cyfyngiad 2021/22	Cydymffurfio
Y terfyn uchaf ar effaith referniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£573,968	£635,000	✓
Y terfyn uchaf ar effaith referniw blwyddyn o gwmp o 1% mewn cyfraddau llog	£0	£24,000	✓

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Mae'r terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

	Uchaf	Isaf	Gwir	Cydymffurfio
O dan 12 mis	1.46%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	1.50%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	11.37%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	6.74%	75%	0%	✓
10 mlynedd a throsodd	78.92%	100%	0%	✓

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Fwy na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy orfod ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

	2021/22	2022/23	2023/24
Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£0m	£0m	£0m
Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfio	✓	✓	✓

8. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy'n berthnasol i'w swyddi.

9. DIWYGIADAU I GODAU CIPFA

Ym mis Chwefror 2021, lansiodd dau ymgynghoriad gan CIPFA ar newidiadau i'r Cod Darbodus a'r Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys. Yr oedd y rhain yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylid tynhau'r fframwaith darbodus ymhellach yn dilyn y benthycia parhaus gan rai awdurdodau at ddibenion buddsoddi. Ym mis Mehefin, rhoddodd CIPFA adborth o'r ymgynghoriad hwn.

Ym mis Medi, cyhoeddodd CIPFA'r Codau a'r Nodiadau Canllaw wedi'u hadolygu ar ffurf drafft, ac agorwyd y broses ymgynghori ddiweddaraf ar y newidiadau arfaethedig. Mae'r newidiadau yn cynnwys:

- Eglurder (a) na ddylai awdurdodau fenthycia i fuddsoddi yn bennaf ar gyfer adenillion ariannol (b) nad yw'n ddarbodus i awdurdodau wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi na gwario fyddai'n arwain at gynyddu'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, gan arwain o bosib at fenthyciadau newydd, os nad ydynt yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r awdurdod.
- Categoriadau buddsoddiadau fel rhai (a) at ddibenion rheolaeth trysorlys, (b) at ddibenion gwasanaethau a (c) at ddibenion masnachol.
- Diffinio rhesymau derbyniol i fenthycia arian: (i) gwariant ariannu cyfalaf sy'n gysylltiedig yn bennaf â chyflwyno swyddogaethau'r awdurdod, (ii) rheolaeth dros-dro o'r llif arian yng nghyd-destun cyllideb gytbwys, (iii) sicrhau fforddiadwyedd drwy geisio osgoi dod i gysylltiad â chyfraddau llog uwch yn y dyfodol a (iv) ail-gyllido benthyciadau cyfredol, gan gynnwys amnewid benthycia mewnol.
- Ar gyfer buddsoddiadau gwasanaethau a masnachol, yn ogystal ag asesiadau fforddiadwyedd a darbodusrwydd, cynnal asesiad o gymesuredd o ran capasiti ariannol cyffredinol yr awdurdod (h.y. a ellir amsugno colledion credadwy i gyllidebau neu gronfeydd wrth gefn).
- Dangosyddion Darbodus
 - Dangosydd newydd ar gyfer incwm net o fuddsoddiadau masnachol a gwasanaethau i'r llif refeniw net yn y gyllideb.
 - Cynnwys y meincnod rhwymedigaeth fel dangosydd darbodus rheolaeth trysorlys gorfodol. Mae CIPFA yn argymhell cyflwyno hwn fel siart o bedair elfen i'w cydbwysio - dyled ar fenthyciadau sydd heb eu talu; benthyciadau CFR, gofyniad benthyciadau net, meincnod rhwymedigaeth - dros o leiaf 10 mlynedd, ac yn ddelfrydol i gynnwys proffil dyledion aeddfed yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.
 - Eithrio incwm buddsoddi o ddiffiniad costau cyllido.
- Cynnwys materion ESG fel ystyriaeth o fewn Rheolaeth Risgiau TMP 1.
- Ffocws ychwanegol ar wybodaeth a sgiliau swyddogion ac aelodau etholedig sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau.

10. RHAGOLYGNON AR GYFER GWEDDILL 2021/22

	Dec-20	Mar-21	Jun-21	Sep-21	Dec-21	Mar-22	Jun-22	Sep-22	Dec-22	Mar-23	Jun-23	Sep-23	Dec-23
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.00	0.00	0.15	0.15	0.15	0.15	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30
Arlingclose Central Case	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10
Downside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50

Mae Arlingclose yn disgwyl i'r Gyfradd Banc gynyddu yn Ch2 2022. Credwn fod hyn wedi'i yrru gan awydd Banc Lloegr i symud o lefelau argyfwng yn gymaint ag ofn pwysau chwyddiant.

Mae buddsoddwyr wedi cynnwys sawl cynnydd yn y Gyfradd Banc i 1% erbyn 2024 yn eu prisiadau. Er bod Arlingclose yn credu y bydd y Gyfradd Banc yn codi, ni fydd mor uchel â

disgwyliadau'r marchnadoedd.

Mae'r economi byd-eang yn parhau i adfer o'r pandemig, ond mae cyfnod mwy heriol wedi dechrau. Mae'r ail-afael yn y galw wedi arwain at y cynnydd disgwylidig mewn pwysau chwyddiant, ond mae'r ffactorau sydd wedi amharu ar gyflenwadau wedi chwyddo'r effeithiau, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y cyfraddau twf yn is yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y DU o ganlyniad i effaith Brexit.

Ehangodd GDP y DU yn Ch2 yn gynt na'r disgwyl i gychwyn, ond bydd y 'pingdemic' a'r problemau diweddar gyda chyflenwadau yn arwain at GDP yn eithaf disymud yn Ch3. Mae'r rhagolygon hefyd yn ymddangos yn wannach. Mae gwariant gan aelwydydd, sef gyrrwr yr adferiad hyd yma, o dan bwysau gan gyfuniad o gynnydd ym mhrisiau ynni manwerthol, diwedd rhaglenni cefnogaeth y llywodraeth a chynnydd mewn trethi yn fuan. Bydd gwariant y Llywodraeth, sef gyrrwr arall yr adferiad, yn arafu'n sylweddol wrth i'r mesurau brys i achub yr economi ddod i ben.

Cynyddodd chwyddiant i 3.2% ym mis Awst. Bydd cyfuniad o ffactorau yn gyrru hyn i dros 4% yn y tymor agos. Er bod disgwyl i'r ffactorau dros-dro sy'n effeithio ar chwyddiant, gan gynnwys effaith sail isel 2020, lacio dros amser, yn ddiweddar mae'r MPC wedi cyfathrebu ofn y bydd y ffactorau byrhoedlog hyn yn bwydo i ddisgwyliadau chwyddiant hirdymor, fydd yn gofyn am bolisi ariannol cryfach i'w rheoli. Mae hyn wedi gyrru disgwyliadau cyfraddau chwyddiant sy'n sylweddol uwch.

Mae'r elfennau anghybwys o ran cyflenwadau yn amlwg yn y farchnad lafur. Er bod twf cyflogau yn uwch ar hyn o bryd o ganlyniad i ffactorau cydrannol a ffactorau sail, ceir hanesion niferus am gyflogau uwch mewn sectorau penodol, sy'n gyrru disgwyliadau chwyddiant. Mae ansicrwydd a fydd cynnydd ar sail eang mewn cyflogau yn bosib yng nghyd-destun y pwysau ar fusnesau.

Cafwyd cynnydd sydyn mewn enillion bondiau yn dilyn cofnodion FOMC a MPCO ym mis Medi, a nododd fod gan y ddau fanc canolog lai o oddefgarwch ar gyfer chwyddiant uwch na'r canfyddiad blaenorol. Mae MPC yn arbennig wedi cryfhau'r arwyddion hyn er gwaetha'r data economaidd mwy meddal. Mae buddsoddwyr bondiau yn disgwyl cyfraddau llog uwch yn y tymor agos, ond mae'n amlwg eu bod yn ansicr am bolisiau'r banciau canolog.

Ymddengys bod MPC yn chwarae'r ddwy ochr, ond mae wedi datgan yn glir ei fwriad i dynhau'r polisi, o bosib wedi'i yrru gan awydd i droi cefn ar y lefelau argyfwng. Bydd y rhagolygon economaidd yn heriol, ond mae'r arwyddion gan wneuthurwyr polisi yn awgrymu y bydd y Gyfradd Banc yn codi os na fydd y data yn awgrymu bod arafu mwy sylweddol.